CABINET

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD O BELL DRWY MICROSOFT TEAMS
DDYDD MERCHER, 15 MEDI 2021 AM 10.30 A.M.

PRESENNOL:

Cynghorydd P. Marsden (Arweinydd) - Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), L. Phipps (Tai), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), E. Stenner (Perfformiad, Economi a Menter), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd) ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn Bresennol:

L. Lane (Dirprwy Swyddog Monitro a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), J. Roberts-Waite (Rheolwr Cydgysylltu Strategol), M. Jennings (Prif Swyddog Strategaeth Dai), L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau Pwyllgorau/Chauffeur) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

COFNODI A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod drwy wefan y Cyngor – Cliciwch yma i'w weld. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai). R. Tranter (Swyddog Monitro) ac S. Harris (Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Bu i L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro) ddatgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem Rhif 6 ar yr Agenda – Prosbectws a Chynllun Datblygu Rhaglenni (PDP) Llywodraeth Cymru, gan fod aelod o'r teulu yn gweithio i'r cwmni adeiladu y cyfeirir ato yn yr adroddiad. Byddai'n gadael y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei hystyried.

3. CABINET – 1 MEDI 2021

PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Medi 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn manylu ar yr adroddiadau a drefnwyd ar gyfer 27 Hydref 2021. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen waith ac felly y gallai newid.

Nodwyd y byddai Eitem Rhif 10 ar yr Agenda bellach yn cael ei gohirio i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol. Caiff y dyddiad ei gadarnhau a'r flaenraglen waith ei diweddaru yn unol â hynny.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn trwy ddangos dwylo.

PENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. BWRDD ADFYWIO – CYNIGION PROSIECT

Yna rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am sêl bendith y Cabinet i ddyrannu hyd at £130,000 o Gronfa Datblygu'r Bwrdd Prosiect Adfywio tuag at ddau gynnig prosiect a gymeradwywyd ac a werthuswyd yn ddiweddar sef y Rhisga – Ailddatblygu safle strategol Canol y Dref (Dichonoldeb ac Uwchgynllunio) a Chynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Gwag Bargoed a gofynnodd hefyd i'r Cabinet nodi bod £1.0M yn ychwanegol o gyllid datblygu wedi'i ddyrannu i'r Bwrdd Prosiect Adfywio.

Amlinellwyd y prosiectau ar gyfer Rhisga a Bargoed, a chytunodd y Cabinet y byddai'r cynigion yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r ddwy ardal, a fyddai'n cael eu croesawu gan drigolion ac yn darparu cyfleoedd i fusnesau.

Mewn perthynas â'r prosiect ym Margoed, nodwyd mai canol y dref hon oedd yr un â'r gyfradd uchaf o eiddo gwag yn y Fwrdeistref Sirol a byddai'r cynnig gerbron y Cabinet yn darparu'r adnoddau i ganiatáu i'r Awdurdod Lleol weithio gyda landlordiaid i wneud defnydd buddiol ohonynt unwaith eto. Byddai hefyd yn caniatáu i hysbysiadau gael eu cyflwyno i landlordiaid amharod ac i gymryd camau gorfodi pe bai angen. Byddai hefyd yn galluogi'r Cyngor i gamu i mewn a gwneud unrhyw waith angenrheidiol. Cadarnhaodd y Swyddog fod £250,000 o arian cyfatebol Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i sicrhau i gefnogi'r prosiect hwn.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd yr arian hwn yn benodol ar gyfer prosiect Bargoed neu a ellid ei ddefnyddio mewn mannau eraill. Cadarnhawyd ei fod wedi'i neilltuo'n benodol ar gyfer Bargoed drwy Dasglu Blaenau'r Cymoedd.

Croesawodd y Cabinet y cynigion ac roeddent yn falch o weld y mesurau a gynigiwyd mewn perthynas â landlordiaid absennol a'r cyfleoedd i sicrhau bod defnydd buddiol yn cael ei wneud unwaith eto o eiddo gwag.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy bleidlais electronig.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog i: -

i) Ddyrannu £130,000 o Gronfa Datblygu'r Bwrdd Prosiect Adfywio i ddatblygu dau gynnig prosiect (i) Rhisga – Ailddatblygu safle strategol Canol y Dref (ii) Cynllun Gweithredu Gorfodi Eiddo Gwag Bargoed.
ii) Bod £1.0M pellach wedi'i ddyrannu i'r Bwrdd Prosiect Adfywio i gyflwyno gweithgareddau datblygu prosiect strategol.

6. PROSBECTWS A CHYNLLUN DATBLYGU RHAGLENNI (PSP) LLYWODRAETH CYMRU.

Gadawodd L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro) y cyfarfod ar ôl datgan buddiant personol oedd yn rhagfarnu.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am farn a sêl bendith y Cabinet ar gyfer Cynllun Datblygu Rhaglenni a'r Prosbectws Asesu'r Farchnad Dai Leol (LHMA) cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai'r adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y newidiadau a wnaed i'r ffordd y caiff Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ei gydlynu a'i ddyrannu ymhlith cymdeithasau tai sy'n bartner a Chartrefi Caerffili.

Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2022. Crynhowyd barn y Pwyllgor Craffu, ac roedd y Cabinet yn falch o nodi, wrth i brosiectau unigol gael eu cyflwyno, y byddent yn mynd trwy broses lawn y pwyllgor ac yn destun adolygiad craffu.

Cyfeiriwyd y Cabinet at adran 5.24 o'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r 4 cynllun oedd wedi'u cynnwys o fewn y Cynllun Datblygu Rhaglenni ac y byddai pob un yn destun adroddiad ar wahân i'r Cabinet fel y bo'n briodol. Yna gofynnwyd am eglurhad o ran cyllid a chadarnhaodd y Swyddog y byddai rhan ohono'n CRT a rhan yn arian cyfatebol.

Croesawodd y Cabinet y prosiectau uchelgeisiol a phwysig hyn i ddod â chartrefi fforddiadwy y mae mawr eu hangen i'r ardal a theimlid ei bod yn hanfodol ystyried cymaint â phosibl o'r cyfleoedd hyn.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy bleidlais electronig a chadarnhad llafar.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog, y dylid cymeradwyo cynnwys yr adroddiad, y Cynllun Datblygu Rhaglenni a'r Prosbectws LHMA drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

7. DARPARU CYNLLUN BUDDION A CHYDNABYDDIAETH STAFF

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am sêl bendith y Cabinet i lwyfan buddion a chydnabyddiaeth newydd ar gyfer staff a fydd yn cefnogi'r Strategaeth Les arfaethedig. Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet gytuno ar y cynnig i gydnabod gwasanaeth hir ymhellach.

Nododd y Cabinet fod llwyfan MyAdvantages gan Endenred yn cynnig gwasanaethau buddion ar-lein am ddim, a gyrchir drwy fframwaith y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol, sy'n sicrhau bod ystod eang o fuddion, cynilion, gostyngiadau a chyngor ar gael i weithwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r llwyfan hefyd yn galluogi cwmnïau ledled Caerffili i hyrwyddo eu busnesau a'u cynigion yn uniongyrchol i weithwyr a thrwy wneud hynny, rhoi cyfle i'n staff gael gostyngiadau gan ddal i siopa'n lleol.

Croesawodd y Cabinet y cynigion fel ffordd o wobrwyo staff a bod o fudd i fusnesau lleol a gofynnodd am sicrwydd y byddai'r cynllun yn cael ei hyrwyddo'n briodol er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl yn manteisio arno. Dywedwyd wrth yr Aelodau, unwaith y byddai'r cynllun ar gael, y byddai Swyddogion Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Adfywio i hyrwyddo a helpu i gefnogi'r llwyfan. Nodwyd y byddai'n cael ei weithredu ymhen tua 8 wythnos, ac felly roedd Swyddogion yn awyddus i sicrhau bod y cynllun ar gael cyn gynted â phosibl, fel y gallai staff elwa o'i gynigion yn y cyfnod cyn y Nadolig.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar newid geiriad argymhelliad 3.1 (2) fel a ganlyn 'bod y cynnig yn cydnabod deugain mlynedd o wasanaeth parhaus i Lywodraeth Leol ar gyfer staff sy'n dal i fod yng nghyflogaeth yr Awdurdod Lleol', y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy bleidlais electronig a chadarnhad llafar.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a nodir yn adroddiad y Swyddog i: -

1. Gytuno i weithredu llwyfan MyAdvantages gan Edenred ar gyfer Caerffili.

2. Cytuno â'r cynnig i gydnabod gwasanaeth parhaus i lywodraeth leol am ddeugain mlynedd ar gyfer staff sy'n dal i fod yng nghyflogaeth yr Awdurdod Lleol.

8. RHYDDID Y FWRDEISTREF SIROL - ENILLWYR MEDALAU OLYMPAIDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor eu bod yn derbyn athletwyr Bwrdeistref Sirol Caerffili a lwyddodd i ennill medalau yng Ngemau Olympaidd Tokyo 2020, sef Lauren Price, Medal Aur a Lauren Williams, Medal Arian fel Rhyddfreinwyr Anrhydeddus y Fwrdeistref Sirol.

Croesawodd y Cabinet y cyfle i wneud yr argymhelliad hwn i'r Cyngor. Roedd yn gwbl gefnogol i roi'r anrhydedd hwn a'i fod yn ffordd gywir a phriodol o gydnabod gwaith caled, ymrwymiad ac ymroddiad Lauren Price a Lauren Williams.

Cofnododd yr Arweinydd ei diolch i'r Cynghorydd Colin Mann, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru a'r Cynghorydd Kevin Etheridge, Arweinydd y Grŵp Annibynnol am eu cefnogaeth drawsbleidiol i'r fraint hon.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad. Cytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy bleidlais electronig.

ARGYMHELLIR i'r Cyngor fod y Cyngor, yn unol ag Adran 249 (fel y'i diwygiwyd) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi Rhyddid Bwrdeistref Sirol Caerffili i'r athletwyr canlynol:

Lauren Price Medal Aur - Pwysau Canol Bocsio Merched (75kg)

Lauren Williams Medal Arian - Taekwondo Merched (-67kg)

9. PRAWF BUDD Y CYHOEDD - ESEMPTIAD RHAG DATGELU DOGFENNAU ATODLEN 12A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Dywedodd yr Arweinydd, gan y byddai'r Eitem Eithriedig yn cael ei gohirio i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol, nad oedd angen y prawf budd y cyhoedd mwyach.

10. EITEM EITHRIEDIG - ADRODDIAD GORWARIO, RHYMNI

Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r mater hwn yn cael ei ohirio i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol. Caiff y dyddiad ei gadarnhau a bydd y flaenraglen waith yn cael ei diweddaru yn unol â hynny.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.08am

Fe'i cymeradwywyd ac fe'i llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2021.

_____

CADEIRYDD